# Cael y gorau o'ch GIG

## Taflen Wybodaeth i Gyfranogwyr



Fe'ch gwahoddir i gymryd rhan mewn astudiaeth ymchwil i archwilio'r defnydd o Fesurau Canlyniad a Adroddir gan Gleifion (PROMs) yn eich gofal GIG. Cyn i chi benderfynu cymryd rhan mae'n bwysig i chi ddeall pam mae'r ymchwil yn cael ei wneud a beth fydd yn ei olygu. Cymerwch amser i ddarllen y wybodaeth ganlynol yn ofalus a'i thrafod ag eraill os dymunwch. Gofynnwch a oes unrhyw beth nad yw'n glir neu os hoffech ragor o wybodaeth.

Diolch am ddarllen hwn.

## Cefndir

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan yn arwain y ffordd i wella gofal y GIG i gleifion. Mae'r Bwrdd Iechyd yn gofyn i gleifion lenwi Mesurau Canlyniadau a Adroddir gan Gleifion (PROMS).

## Beth yw Mesurau Canlyniad a Adroddir gan Gleifion (PROMS)?

Mae Mesurau Canlyniadau a Adroddir gan Gleifion (PROMS) yn grŵp o gwestiynau a grëwyd i chi ddweud wrth y Bwrdd Iechyd am eich iechyd, profiadau ac ansawdd bywyd. Efallai y gofynnwyd i chi gwblhau PROMS gan ddefnyddio'r dulliau a restrir isod:

- Galwad ffôn gan aelod o staff
- Neges destun
- ythyr a anfonwyd drwy'r gwasanaeth post
- E-bost

## Ar gyfer beth mae Mesurau Canlyniadau a Adroddir gan Gleifion (PROMS) yn cael eu defnyddio?

Defnyddir PROMs fel arf asesu i sicrhau bod y rhai sydd angen triniaeth feddygol frys yn cael eu gweld cyn gynted â phosibl. Mae PROMs hefyd yn helpu'r Bwrdd Iechyd i fonitro eich cynnydd a'ch symptomau o gysur eich cartref eich hun.

## Pwy ydym ni?

Rydym yn dîm o ymchwilwyr profiadol ym Mhrifysgol Bangor mewn partneriaeth â Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan (BIPAB).

## Pwy sy'n trefnu ac yn ariannu'r ymchwil?


Mae Llywodraeth Cymru yn ariannu'r astudiaeth hon. Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan yw'r noddwr.

## Beth yw pwrpas yr ymchwil?

Rydym am ddarganfod sut mae Mesurau Canlyniadau a Adroddir gan Gleifion (PROMs) yn gweithio i gleifion a chlinigwyr ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan.

## Pam rydyn ni'n gofyn am eich help?

Rydym wedi cysylltu â chi oherwydd ein bod am glywed am eich profiadau o lenwi a defnyddio Mesurau Canlyniad a Adroddir gan Gleifion (PROMs). Efallai eich bod yn glaf neu'n aelod o'r teulu. Bydd rhannu eich barn a'ch profiadau yn



ein helpu i ddysgu mwy am y defnydd o Fesurau Canlyniadau a Adroddir gan Gleifion (PROMs). Bydd eich profiadau byw yn ein helpu i ganfod a yw Mesurau Canlyniadau a Adroddir gan Gleifion yn helpu i godi safonau gofal y GIG, a sut.

**Sut gallaf helpu?**
Trwy gymryd rhan mewn cyfweliad dros y ffôn, galwad fideo ar-lein neu wyneb yn wyneb fel claf neu aelod o'r teulu (gallwch gymryd rhan naill ai ar wahân neu gyda'ch gilydd).

**Beth mae cymryd rhan yn ei olygu?**
Hoffem wrando'n ofalus arnoch chi. Mae cyfweliadau fel arfer yn para tua awr a byddwn yn trefnu'r cyfweliad i gyd-fynd â'ch amserlen a'ch anghenion.

Os ydych yn cytuno i gymryd rhan neu os hoffech gael rhagor o wybodaeth, llenwch a dychwelwch eich manylion cyswllt ar y Ffurflen Caniatâd i Gyswllt.

**Beth yw manteision posibl cymryd rhan?**
Mae llawer o bobl yn croesawu'r cyfle i rannu eu straeon i'n helpu ni i ddysgu. Bydd y wybodaeth a gawn yn ein helpu i ddeall mwy am y defnydd o Fesurau Canlyniadau a Adroddir gan Gleifion (PROMs). Bydd hyn yn helpu'r GIG yng Nghymru i wella gofal a chymorth i gleifion yn y dyfodol.

**Beth yw anfanteision a risgiau posibl cymryd rhan?**
Byddwn yn gofyn am eich profiadau o ofal ac yn benodol eich barn ar Fesurau Canlyniadau a Adroddir gan Gleifion (PROMS). Er ei bod yn annhebygol y bydd hyn yn peri gofid, byddwch yn dawel eich meddwl nad oes yn rhaid i chi ateb unrhyw gwestiynau nad ydych yn dymuno eu hateb a gallwch roi'r gorau iddi ar unrhyw adeg.

**Oes rhaid i mi gymryd rhan?**
Na, mae i fyny i chi yn gyfan gwbl.

**Beth os oes gennyf bryderon am yr astudiaeth hon?**
Os oes gennych bryder am unrhyw agwedd ar yr astudiaeth hon, dylech ofyn am gael siarad ag aelod o'r tîm ymchwil a fydd yn gwneud ei orau i ateb eich cwestiynau. Y Prif Ymchwilydd yw Dr Gareth Roberts, e-bostiwch hayley.lewis@wales.nhs.uk. Os na all y tîm ymchwil ddatrys eich ymholiad a/neu os hoffech siarad â rhywun y tu allan i'r tîm ymchwil gallwch gysylltu â rheolwr Ymchwil Aneurin Bevan ar ABB.RandD@wales.nhs.uk.


**Beth ddylwn i ei wneud nesaf os ydw i am gymryd rhan?**
Diolch. Anfonwch eich ffurflen caniatâd i gysylltu yn ôl drwy'r ddolen ddigidol. Edrychwn ymlaen at glywed oddi wrthych.

**Gwybodaeth diogelu data: Beth fydd yn digwydd i'r wybodaeth a roddaf?**

Bydd y data a roddwch yn ddienw ac yn cael ei ddadansoddi gan aelodau tîm ymchwil Prifysgol Bangor. Ni fyddwn yn rhannu unrhyw rai o'ch manylion adnabyddadwy oni bai eich bod yn dweud rhywbeth wrthym sy'n peri pryder mawr i ni amdanoch chi neu ddiogelwch rhywun arall megis plentyn neu oedolyn agored i niwed.

**Beth yw eich dewisiadau ynghylch sut y defnyddir eich gwybodaeth?**

Fel sefydliad a ariennir yn gyhoeddus, mae'n rhaid i ni sicrhau ei fod er budd y cyhoedd pan fyddwn yn defnyddio gwybodaeth bersonol adnabyddadwy gan bobl sydd wedi cytuno i gymryd rhan mewn ymchwil. Mae hyn yn golygu pan fyddwch yn cytuno i gymryd rhan mewn astudiaeth ymchwil, byddwn yn defnyddio'ch data yn y ffyrdd sydd eu hangen i gynnal a dadansoddi'r astudiaeth ymchwil. Mae eich hawliau i gael mynediad at, newid neu symud eich gwybodaeth yn gyfyngedig, gan fod angen i ni reoli eich gwybodaeth mewn ffyrdd penodol er mwyn i'r ymchwil fod yn ddibynadwy ac yn gywir. Os byddwch yn tynnu'n ôl o'r astudiaeth, byddwn yn cadw'r wybodaeth amdanoch yr ydym eisoes wedi'i chael. Er mwyn diogelu eich hawliau, byddwn yn defnyddio cyn lleied â phosibl o wybodaeth bersonol adnabyddadwy.




**Gallwch ddarganfod mwy am sut rydym yn defnyddio eich gwybodaeth:**

- Trwy ofyn i'r tîm ymchwil
- drwy gysylltu â'r Swyddog Diogelu Data Jonathan Meredith yn DPO.ABB@wales.nhs.uk.

**Byddem wrth ein bodd yn clywed gennych.**

Value Based Healthcare study
School of Health Sciences
Bangor University
Email: VBHC@bangor.ac.uk
Phone: +44 1248 388728